# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 22 Mai 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Stuart Davies, Gwyneth Kensler, Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac Paul Whitham (Aelod Lleyg)

Arsyllwyr: Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a/ac Y Cynghorydd Julian Thompson Hill

## HEFYD YN BRESENNOL

Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol (TW), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMc), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Archwilio (BS), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (GB a AV) a/ac Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW).

## 1 PENODI CADEIRYDD

Croesawodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd yr eitem o benodi Cadeirydd.

Enwebodd y Cynghorydd Brian Blakeley'r Cynghorydd Jason McLellan ac eiliodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y cynnig.

Cododd pawb eu dwylo'n unfrydol i gytuno.

Croesawodd y Cadeirydd newydd y Cynghorydd Brian Blakeley fel Aelod newydd o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y Cynghorydd Peter Duffy hefyd yn Aelod newydd o'r Pwyllgor, ond nid oedd yn bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Jason McLellan yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y flwyddyn i ddod.*

## 2 PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Jason McLellan y Cynghorydd Gwyneth Kensler ac eiliodd y Cynghorydd Brian Blakeley'r cynnig.

Cododd pawb eu dwylo'n unfrydol i gytuno.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Gwyneth Kensler yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y flwyddyn i ddod.*

## 3 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Martyn Holland

## 4 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 5 MATERION BRYS

Dim.

## 6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2013.

Materion yn Codi:-
Eitem 9, Tudalen 12 – Rhannu Pryderon – Gofynnodd Mr Paul Whitham am y newyddion diweddaraf.
Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (PGCD) y byddai'r Polisi ar gael ar gyfer trydydd partïon lle ymrwymir i drefniadau gyda'r Awdurdod.

Eitem 10, Tudalen 13 – Cyfeiriodd Mr Paul Whitham at y mater o bresenoldeb gwael mewn sesiynau hyfforddi Archwilio a dywedodd fod materion o'r fath mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau. Gofynnodd Mr Whitham am i hyn gael ei ystyried a'i ddilyn i fyny.

Cadarnhaodd y PGCD bod y gwasanaeth a'r Cynghorydd Barbara Smith ar hyn o bryd yn gwneud gwaith ar hyfforddiant Aelodau. Roedd cynlluniau hyfforddi personol yn cael eu datblygu ar gyfer Aelodau. Bu gweithdy i'r aelodau ar hyfforddiant a byddai hyn yn cael ei ail-gynnal yn yr wythnosau nesaf mewn sesiwn gyda'r nos yn ardal y Rhyl er mwyn galluogi mwy o aelodau i fod yn bresennol.

Byddai'r mater o wella presenoldeb yn cael ei ystyried fel rhan o'r gweithdy.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.*

## 7 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL: CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Rheolwr Gwella Corfforaethol adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) a oedd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Roedd

hwn yn adroddiad rheoleiddio allanol allweddol yr oedd y Cyngor yn ei gael bob blwyddyn.

Cyflwynodd Mr Gwilym Bury o SAC ganfyddiadau'r adroddiad. Roedd yn un o ofynion Mesur y Llywodraeth bod SAC yn cynhyrchu AGB. Roedd yr holl AGB a gynhyrchwyd ar gyfer yr holl Awdurdodau Lleol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru i'w gweld.

Roedd yr adroddiad mewn tri phrif ran.

Yn rhan gyntaf daethpwyd i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth sicrhau gwelliant yn ei feysydd blaenoriaeth:

- Roedd perfformiad yn parhau i wella yn y rhan fwyaf o'r agweddau ar waith y Cyngor i addasu'r ffordd y cyflenwir gwasanaethau er mwyn mynd i'r afael â newidiadau demograffig;
- Bu cynnydd wrth gefnogi prosiectau adfywio yn y Rhyl ond, mewn cyfnod economaidd heriol, roedd y cynnydd wedi bod yn araf wrth gefnogi twf economaidd ar draws Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd;
- Roedd Estyn wedi barnu bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o ansawdd da i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon gwella yn dda;
- Roedd rhaglen y Cyngor i wella ffyrdd yn gwneud cynnydd ond, yn dilyn y llifogydd yn 2012, byddai ymchwiliad annibynnol yn penderfynu a oes angen camau gweithredu i sicrhau y bydd perygl llifogydd yn y Sir yn cael ei reoli'n briodol yn y dyfodol;
- Roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda'i gamau gweithredu a gynlluniwyd i wella'r ffordd mae'n gweithio.

Canfu ail ran yr adroddiad bod trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn cefnogi gwaith hunanwerthuso dibynadwy ond bod lle i wella ansawdd rhywfaint o'r dystiolaeth mae'r Cyngor yn ei defnyddio i farnu ei effeithiolrwydd.

Yn olaf, roedd trydedd rhan yr adroddiad yn nodi barn SAC ynghylch pa mor dda y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn gwneud trefniadau i gefnogi gwelliant. Daethpwyd i'r casgliad bod trefniadau'r Cyngor i gefnogi gwelliant yn dda. Yn benodol:

- Roedd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur;
- Roedd y Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'i Gynllun Iaith Gymraeg;
- Roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn asesiadau blaenorol SAC.

Daethpwyd i'r casgliad nad oedd unrhyw argymhellion newydd eleni. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd roedd y Cyngor yn ei wneud i ddelio â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn adroddiad blaenorol SAC.

Yn dilyn trafodaeth fer, dywedwyd bod Alan Smith wedi cael ei nodi fel Uwch Swyddog Risg y Cyngor ac y byddai'n monitro'r risgiau ac yn sicrhau bod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn gyfredol a chynhwysfawr.

Codwyd y mater hefyd ynghylch a ddylai'r Gofrestr Risg Gorfforaethol gael ei dwyn gerbron y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Dywedodd y PGCD bod angen i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fod yn fodlon bod systemau digonol yn eu lle ar gyfer risg. Byddai'r PGCD yn trafod y mater gyda'r Tîm Gwella Corfforaethol ac Archwilio Mewnol ac yna'n cyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i gael barn yr Aelodau.

Nododd y PGCD hefyd yr ymgynghorir â’r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio Craffu ynglŷn ag i bwy ddylid cyflwyno’r Gofrestr Risg Corfforaethol, naill ai’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Unwaith y bydd y mater hwn wedi cael ei drafod, bydd yn cael ei gyfeirio i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn yr Adroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.*

## 8 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAN) yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd eisoes).

Rhoddodd y PAN y newyddion diweddaraf i’r Aelodau am:

- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gyflwynwyd
- ymateb y rheolwyr i faterion a godwyd.

Roedd camau gweithredu tymor hwy o ran Data – gyda 3 risg gymedrol dal angen gweithredu arnynt. Roedd dau o'r rhain am gael eu symud i “gwaith yn mynd rhagddo” ym mis Hydref 2013, ac un ym mis Ebrill 2014.

Holodd y PAN a oedd angen mwy o wybodaeth yn yr adroddiadau ac a fyddai presenoldeb Rheolwyr perthnasol mewn cyfarfodydd yn ddefnyddiol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor yn derbyn a nodi'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.*

**Cafwyd egwyl (10.35 a.m.).**

**Ail-ddechreuodd y cyfarfod am 10.55 a.m.**

## 9 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL BLYNYDDOL 2012 / 13

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAN) Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol (a ddosbarthwyd eisoes).

Mae'r “Cod Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig” (2006) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a Safonau Archwilio Mewnol Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol (CIIA) yn ei gwneud yn ofynnol i’r “Pennaeth Archwilio Mewnol” ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn:

- Darparu barn Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor;
- Datgelu unrhyw amodau i farn Archwilio Mewnol, ynghyd â'r rhesymau dros yr amod;
- Cyflwyno crynodeb o’r gwaith archwilio mae Archwilio Mewnol wedi’i wneud i ffurfio barn, gan gynnwys y ddibyniaeth a roddir ar waith gan gyrff sicrwydd eraill; a
- Tynnu sylw at unrhyw faterion mae Archwilio Mewnol yn credu sy’n arbennig o berthnasol i baratoi’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Roedd y materion sy'n berthnasol i Ddatganiad Blynyddol y Llywodraeth yn ymwneud â rheoli gwybodaeth ac Adnoddau Dynol Strategol. Byddai Catrin Roberts, y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol yn mynychu’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 3 Gorffennaf 2013.

Gofynnodd Mr Paul Whitham am gyflwyno’r newyddion diweddaraf oddi wrth Adnoddau Dynol Strategol (AD) a Diogelu Data/ RhG yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 3 Gorffennaf 2013. Cadarnhaodd y PAN y byddai adroddiad ar lafar yn bosibl, ond ni fyddai digon o amser i lunio adroddiad llawn.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, nodi a derbyn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2012/13.*

## 10 DRAFFT Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2012/13

### Adolygiad Cenedlaethol o Lywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Cyflwynodd Anthony Veale o Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ynghylch yr Adolygiad Cenedlaethol o Lywodraethu.

Roedd yr adolygiad wedi ei gynnal ym mis Chwefror / Mawrth 2013. Yn bennaf roedd wedi bod yn edrych ar Ddatganiad Llywodraethu 2011/12. Mae'r Datganiad Llywodraethu wedi bod yn ofyniad newydd ers 2010/11.

Roedd y cefndir i'r adolygiad fel a ganlyn:

- Angen i Awdurdodau Lleol baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) ers 2010/11
- Aliniwyd yr adolygiad o Lywodraethu gyda’r gofynion asesu o dan Fesur Llywodraeth Leol (MLlL)
- Rhaid i’r Archwiliwr Cyffredinol archwilio trefniadau o fewn yr Awdurdod Lleol i ddiwallu dyletswyddau MLlL)
- Parodrwydd i ddibynnu ar asesiad yr ALl ei hun

- Astudiaeth i roi sicrwydd ynghylch asesu a helpu gwella hyn
- Canolbwyntio ar nodi mannau dysgu ar gyfer adolygiad o lywodraethu 2012/13 er bod y Cyngor eisoes yn tynnu at ddiwedd y broses honno a gall gael mwy o effaith ar DLlB y dyfodol.

Ar y cyfan, gellid gwneud gwelliannau i'r ffordd mae’r Cyngor yn llunio DLlB. Roedd y Cyngor eisoes yn cymryd camau i wella ei brosesau yn y dyfodol:

- Roedd angen i adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu fod yn fwy eang ei gwmpas, yn drylwyr ac yn gadarn.
- Roedd y Cyngor wedi nodi meysydd sydd angen eu gwella yn ei drefniadau llywodraethu ac yn gwneud cynlluniau i ymdrin â hwy.

Roedd adolygiad y Cyngor yn cynnwys peth ystyriaeth o reolaethau partneriaeth ond ychydig o sicrwydd oedd yn y DLlB mewn perthynas ag effeithiolrwydd y rheolaethau partneriaeth hyn:

- ychydig o waith sicrwydd a wnaed i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau hyn – “bwlch yn y fframwaith sicrwydd”
- Ychydig iawn o sylw a roddir i reolaethau llywodraethu mewn perthynas â chomisiynu yn y DLlB
- Mae trefniadau archwilio newydd yn rhoi proffil uwch i faterion partneriaeth
- Roedd y Cyngor yn cymryd camau i wella rheolaethau partneriaeth.

Roedd y Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i werthuso trefniadau ar gyfer sicrhau rheolaeth effeithiol o drefniadau llywodraethu, ond roedd angen mwy o ymgysylltu ac ymgynghori wrth ddatblygu DLlB yn y dyfodol:

- Roedd dogfennau i gefnogi'r DLlB yn cymell y swyddogion i ystyried a yw'r trefniadau’n effeithiol
- Roedd mecanweithiau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion ar waith trwy gyfarfodydd rheolaidd o’r Grŵp Llywodraethu a monitro’r Cynllun Gweithredu
- Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg ac yn sicrhau bod ei waith yn cyd-fynd â’r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r fframwaith llywodraethu
- Roedd angen ymgysylltu ac ymgynghori llawer ehangach yn natblygiad y DLlB, yn enwedig gydag Aelodau, UDG a Phenaethiaid Gwasanaeth.

Roedd y Cyngor wedi nodi ac ymateb i wersi a ddysgwyd o gynhyrchu DLlB 2011/12:

- Mae swyddogion ac aelodau yn cydnabod yr angen am fwy o ymgysylltu wrth baratoi DLlB yn y dyfodol
- Dylai'r Grŵp Llywodraethu gefnogi datblygiad y DLlB
- Dylai datblygu fframwaith sicrhau rheolaeth:
    - Nodi’n glir y rheolaethau llywodraethu allweddol, y sicrwydd ar y rheolaethau hynny ac unrhyw fylchau posibl o ran mewn sicrwydd
    - Helpu’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i herio mwy mewn perthynas â’r DLlB
- Roedd cyfle go iawn i'r Cyngor alinio ei raglen hunanasesu gyda datblygu a chynhyrchu’r DLlB.

Canmolodd Anthony Veale o SAC y Rheolwr Archwilio Mewnol gan nad oedd fframwaith sicrwydd rheolaethau yn ddogfen hawdd i'w llunio a'i bod wedi darparu SAC gyda'r holl wybodaeth yr oeddent ei hangen.

Byddai'r Adroddiad Cenedlaethol yn cael ei ddwyn yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol cyn Nadolig 2013

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2012/ 13**

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAN) Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2012/13 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er mwyn galluogi'r Aelodau i herio ac argymell mwy o waith neu welliannau os oedd angen.

Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft wedi cael ei drafod yn y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol blaenorol ac ers hynny hefyd wedi cael ei gyflwyno yn yr UDA. Cafwyd adborth oddi wrth Anthony Veale, Swyddfa Archwilio Cymru, a hefyd yr UDA.

Roedd y ddogfen ar ffurf ddrafft a byddai angen llofnod y Prif Weithredwr a'r Arweinydd cyn diwedd mis Mehefin 2013. Byddai'r ddogfen yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi 2013. Roedd amryw o feysydd gwella a byddai cynllun gweithredu yn cael ei lunio a fyddai'n cael ei ddiweddaru gan y Grŵp Llywodraethu a fyddai'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, y Pennaeth Cyllid ac Asedau a'r Rheolwr Archwilio Mewnol.

Yn dilyn trafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- O ran y system rheolaeth fewnol, o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft, nodwyd na allai'r system rheolaeth fewnol ddileu pob risg a dim ond sicrwydd rhesymol, nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gallai ei roi. Cadarnhaodd y PAN y byddai hyn yn cael ei godi yn yr Adroddiad Rheoli Risg a'i gyflwyno i'r UDG..
- Yr angen i wella ymgysylltiad â'r swyddogaeth archwilio ymhlith budd-ddeiliaid a sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni? Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, mewn perthynas â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd gwelliannau i'w gwneud. Roedd trefniadau ar waith i bobl godi eitemau i'w cyflwyno i'r swyddogaeth archwilio. Ymhlith materion i'w hystyried ymhellach oedd a ddylid gwneud mwy o ddefnydd o Grwpiau Tasg a Gorffen, ac a ddylid cael aelodau o'r cyhoedd fel aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgorau Archwilio neu roi hawliau iddynt siarad yn y Pwyllgor Archwilio ac ati.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, derbyn Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2012/13.*

## 11 YR HUNAN ASESIAD PWYLLGOR (CYFLWYNIAD O GANFYDDIADAU)

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn hysbysu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am ganfyddiadau Hunanasesiad y Pwyllgor.

Dwedodd y PAN mai dim ond dau holiadur oedd wedi cael eu dychwelyd. Cytunwyd y dylid ychwanegu’r mater hwn ar y rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf i’w gynnal ar 3 Gorffennaf 2013 er mwyn galluogi’r Aelodau i weithio trwy’r holiadur a mynd ar yr hyfforddiant a fyddai ei angen.

***PENDERFYNWYD*** *ychwanegu cyflwyno’r canfyddiadau at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer 3 Gorffennaf, 2013.*

## 12 ADOLYGU CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PCA) yr Adroddiad Adolygiad o’r Cronfeydd Wrth Gefn a’r Balansau (a ddosbarthwyd eisoes) i hysbysu’r Pwyllgor am lefel y cyllid sydd gan y Cyngor ar hyn o bryd a gofyn am farn y Pwyllgor am newidiadau i gronfeydd wrth gefn penodol cyn i gynigion gael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Roedd y dadansoddiad yn dangos y gellid symud £6.4m allan o gronfeydd wrth gefn presennol i Gronfa Wrth Gefn newydd ar gyfer Buddsoddi yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd hyn naill ai oherwydd bod y risgiau o ran y gronfa wrth gefn bresennol wedi lleihau/ digwydd neu roeddent eisoes wedi'u sefydlu am bwrpas tebyg.

Nid oedd symud y cyllid rhwng cronfeydd wrth gefn yn golygu ei fod wedi’i wario, ond roedd yn golygu ei fod wedi’i neilltuo ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol. Roedd y Cynllun Corfforaethol yn cymryd yn ganiataol y byddai angen i’r Cyngor ganfod tua £25m o arian parod, cronfeydd wrth gefn, derbyniadau cyfalaf ac atgyfeirio gwariant refeniw ac y byddai £50m arall yn dod o fenthyca. Felly, roedd yr adolygiad hwn yn nodi tua 25% o’r cyllid fyddai ei angen ar gyfer y Cynllun Cyfalaf.

Pe cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad, buasent yn cael eu cynnwys yn yr ‘Adroddiad Alldro’ i’r Cyngor llawn a fyddai’n hysbysu’r Aelodau o’r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn, cytuno ar greu cronfeydd wrth gefn newydd a phenderfynu beth i’w wneud gydag unrhyw achos o danwario neu orwario sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor yn derbyn cynnwys yr adroddiad a chytuno gyda’r Adolygiad o’r Cronfeydd Wrth Gefn a’r Balansau.*

## 13 SWYDDOGAETH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL WRTH BENNU’R GYLLIDEB

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PCA) adroddiad Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol wrth Bennu’r Gyllideb (a ddosbarthwyd eisoes), i gael

barn y pwyllgor ar eu swyddogaeth yn y broses ddiwygiedig ar gyfer pennu'r gyllideb.

Dwedodd y PCA bod proses ddiwygiedig ar gyfer pennu cyllideb wedi cael ei chynnig yn sesiwn Briffio'r Cyngor ym Mawrth 2013 a fyddai'n lleihau nifer yr aelodau oedd â rhan ym mhroses herio'r gyllideb. Cynigwyd hefyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn darparu trosolwg o'r broses.

Nid gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol oedd cymeradwyo'r gyllideb, swyddogaeth fonitro oedd ei un hwy. Byddai hyn yn cael ei adrodd yn fisol i'r Cabinet.

Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod y Mesur yn nodi dylai'r Pwyllgor Archwilio adolygu materion ariannol. Mae adroddiadau misol monitro'r gyllideb yn mynd i'r Cabinet. Awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad canol blwyddyn ynglŷn â monitro'r gyllideb i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD*** *Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi a chytuno â'r Swyddogaeth Llywodraethu Corfforaethol wrth Bennu'r Gyllideb.*

## 14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd eisoes) i'w hystyried.

Cytunwyd ychwanegu Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol at Raglen 5 Medi 2013 a bob yn ail cyfarfod wedi hynny.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.10 p.m.**